

YN WYNEB HAUL

L L Y G A D G O L E U N I



GORSEDD BEIRDD YNYS PRYDAIN

Adroddiad Blynyddol Bwrdd yr Orsedd 2016



Gorseddwyd y Prifardd Geraint Llifon yn Archdderwydd Gorsedd y Beirdd yn ystod seremoni'r Cyhoeddi yng Nghaerdybi Ynys Môn ar ddydd Sadwrn 25 o Fehefin. Yn anffodus, bu'n rhaid cynnal y seremoni yn Neuadd Ysgol Uwchradd Caerdybi oherwydd y tywydd gwlyb. Er hynny, roedd tua 500 o bobl yn bresennol.

Ym Môn y gwelwyd penwisgoedd newydd Yr Orsedd am y tro cyntaf. Diolchwn i Ela Cerrigellgwm a'i thîm am yr holl waith. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan yr aelodau.

Regalia'r Orsedd yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain rhwng mis Medi 2015 a diwedd Ionawr 2016.



Arddangosfa'r "Celtiaid" yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain

Medi 15 – Ionawr 2016

Bu Regalia'r Orsedd ar fenthyg i'r Amgueddfa Brydeinig yn Llundain rhwng mis Medi 2015 a diwedd mis Ionawr 2016, mewn arddangosfa arbennig ar y Celtiaid a gynhaliwyd yno, yr un gyntaf o'i bath. Roedd Baner yr Orsedd, ynghyd â thelyn Geltaidd a Chroes Geltaidd yn wynebu pobl wrth iddynt ddod i mewn i'r Arddangosfa ac yna'r eitemau olaf a welai pobl wrth adael, oedd Regalia'r Orsedd. Er bod mynediad i'r Amgueddfa yn rhad ac am ddim, roedd yn rhaid i bawb dalu i fynd i mewn i'r Arddangosfa, Talodd 153,000 o bobl i weld yr arddangosfa. Bu'r Archdderwydd Christine yn darlithio yno ar hanes yr Orsedd yn ystod y cyfnod hwn.



**ADRODDIAD TREFNYDD YR ARHOLIADAU
2016**

- Yn dilyn y trafodaethau a gafwyd y llynedd gyda Gwenllian Carr, Pennaeth Cyfathrebu yr Eisteddfod Genedlaethol, ynghylch dulliau o fanteisio ar rwydweithiau hysbysrwydd canolog yr Eisteddfod er mwyn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r arholiadau, fe ddyluniwyd tudalen arbennig ar gyfer yr arholiadau ar wefan yr Eisteddfod (<http://www.eisteddfod.cymru/arholiadau>) ac fe ryddhawyd datganiad i'r Wasg gan Gwenllian; diolchaf yn ddiffuant iddi am rannu'i harbenigedd yn y maes hwn.
- Yn ogystal, llwyddwyd i ennyn cydweithrediad gwefan BBC Cymru Fyw wrth geisio tynnu sylw at yr arholiadau (<http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/33099058>). Ar y wefan, ceir gwybodaeth berthnasol am y gwahanol feysydd astudiaeth, ynghyd ag enghreifftiau o gwestiynau ac atebion enghreifftiol i gynorthwyo darpar-ymgeiswyr.
- Eleni eto, mynegaf fy ngwerthfawrogiad o gydweithrediad a chymorth parod fy nghyd-swyddogion yng Ngorsedd, ynghyd â staff canolog yr Eisteddfod, yn y gwaith o weinyddu a chyflawni'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth o'r Orsedd trwy arholiad.
- Yn yr un modd, diolchaf yn arbennig i'r Arwyddfardd a'r Cofiadur am hwyluso fy ngwaith o baratoi'r tystysgrifau aelodaeth ar gyfer y seremonïau boreol. Diolch hefyd i'r Prifardd a'r Prif Lenor Mererid a'r disteiniaid am eu cydweithrediad wrth oruchwyllo cyflwyno'r tystysgrifau yn y seremonïau urddo ar y boreau Llun a Gwener.

*Gwyn o Arfon
Trefnydd yr Arholiadau
Ebrill 2016*

Adroddiad Arolygydd y Gwisgoedd 2016

CYHOEDDI EISTEDDFOD SIR FYNWY A'R CYFFINIAU 2015

Bu Gŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Sir Fynwy a'r Cyffiniau yng Nghil y Coed – safle arbennig iawn gyda naws hyfryd i'r achlysur. 'Roedd y croeso yn gynnes a llawer nad oeddynt yn siarad Cymraeg yn rhan o'r gweithgareddau.

Oherwydd diffyg gwybodaeth lleol nid oedd llawer o gymorth gyda'r smwddio dydd Gwener na'r gwisgo bore Sadwrn. Diolch o galon i'r gorseddogion fu'n cynorthwyo eraill i wisgo.

Daeth yn amlwg fod angen mwy o gyfarwyddiadau ynghylch gwisgoedd Mam a Merch y Fro, y Llawforynion a'r Flodeued. Bydd llawer o rhain yn cael eu datrys rwy'n siwr yn dilyn y Gynhadledd Fideo a drefnwyd.

'Rwyn hollol ffyddiog bydd popeth yn drefnus erbyn yr Eisteddfod.

Eisteddfod Maldwyn a'r Gororau

Wythnos ragorol ac atgofion am fwynder Maldwyn yn fyw yn y cof. Rhaid imi ddiolch i Marian Jones a'i chynorthwyr. Mae'n gaffaeliad mawr cael cymorth un sydd wedi gwneud y gwaith o'r blaen ac hefyd mae'n ymwneud ag Eisteddfod Powys. Roedd wedi trefnu bod digon o ferched i helpu drwy gydol yr wythnos er mwyn hwylusdod i bob un.

Cawsom bum seremoni lwyddiannus er gwaethaf y glaw fore Llun. Symudodd pawb i'r Babel Lân yn ddiffwdan a pharhaodd y seremoni yn urddasol dan arweiniad medrus ein Harchdderwydd Christine.

Cafwyd trefn newydd i'r ystafelloedd newid ac wedi ymgysylltu cytunai'r mwyafrif ei bod yn welliant. Rwyf wedi awgrymu rhai newidiadau pellach ond ni wn a fydd hyn yn bosib. Fe gawn weld.

Mae rhoi enwau ar y gwisgoedd i'wweld yn hwyluso pethau. 'Rwyn gobeithio bydd gwelliant bob blwyddyn fel mae'r anghenion hyd (a lled) yn cael eu datrys.

Hoffwn ddiolch ichi am eich cefnogaeth i'r cynllun penwisg newydd. Fe ddefnyddir y rhai newydd i bawb yn y Cyhoeddi yng Nghaergybi. Gobeithio bydd yr ymateb yn ffafriol.

Unwaith eto hoffwn ddiolch am eich cefnogaeth gydol y flwyddyn.

Ela Cerrigellgwm.

Materion eraill a drafodwyd yng Nghyfarfodydd Bwrdd Yr Orsedd yn ystod y flwyddyn

- (i) Derbyniwyd adroddiad/cofnodion Ymgynghorwyr y Ddawns Flodau a diolchwyd iddynt am eu gwaith. Nododd Ela ei bod hi'n anodd i gyflwynwyr y Flodeued a'r Corn Hirlas ddod o hyd i wisg wen syml/plaen i'w gwisgo o dan y clogynnau. Penderfynwyd y bydd Arolygydd y Gwisgoedd yn creu y gwisgoedd hynny ac y byddwn yn gofyn i'r Cyflwynwyr gyfrannu tuag at y gost.
- (ii) Derbyniwyd adroddiad Arolygydd y Gwisgoedd a Gwenda Griffith a fu'n ystyried y cais a ddaeth i law, yn gofyn a fyddai'n bosib i aelodau'r Orsedd brynu eu gwisgoedd. Argymhellid yr adroddiad oedd nad oedd hynny'n ymarferol.
- (iii) Enillydd Gwobr Osborne Roberts – cytunwyd bod yr enillydd yn cael ei dderbyn i'r Wisg Wen o hyn ymlaen.
- (iv) Penodwyd Annes Glyn yn aelod o Banel yr Urddau am 3 blynedd.

(v) Penodwyd Ifor ap Glyn (Tafwysfardd) i gymryd lle Manon Rhys ar Banel Llenyddiaeth yr Eisteddfod fel cynrychiolydd yr Orsedd.

(vi) Derbyniwyd llythyr gan Carwyn John ar ran y Pwyllgor Llenyddiaeth Ganolog yn gofyn i ni ystyried rhoi cyfle i enillydd Gwobr Llwyd o'r Bryn gymryd rhan yn un o seremoni'r Orsedd. Trafodwyd hyn gan Banel y Seremoniau a gosodwyd yr argymhelliad canlynol ger bron y Bwrdd: *Bydd enillydd Gwobr Llwyd o'r Bryn yn derbyn gwahoddiad i lefaru cywydd, dan y teitl "Cerdd y Cadeirio" yn ystod seremoni'r Cadeirio. Byddwn yn gofyn i'r Prifardd Myrddin ap Dafydd i greu cywydd arbennig ar gyfer y seremoni, i'w llefaru cyn Cân y Cadeirio. Derbyniwyd yr argymhelliad.*

(vii) Derbyniwyd 'Cerdd y Cadeirio' gan Myrddin ap Dafydd a bydd Joy Parry, enillydd gwobr Llwyd o'r Bryn yn Eisteddfod 2015 yn cyflwyno'r gerdd am y tro cyntaf yn seremoni'r Cadeirio yn y Fenni eleni.

Ar ddiwedd ei chyfarfod olaf o'r Bwrdd fel Archdderwydd, diolchodd Christine i'r aelodau am eu cefnogaeth dros y cyfnod y bu wrth ei gwaith. Diolchwyd i Christine am ei gwaith rhagorol fel Archdderwydd gan yr Archdderwydd Etholedig Geraint Llifon ac ategwyd hynny gan y Cofiadur.

Cyfarfod Cymdeithasol yr Orsedd 2015 Troedio strydoedd Cwmderi . . .

Wrth eistedd o flaen ein setiau teledu yn nosweithiol i wylio *Pobol y Cwm*, go brin fod gan y rhan fwyaf ohonom y syniad lleiaf faint o unigolion sydd wedi bod wrthi'n llafurio am fisoedd lawer i sicrhau bod y bennod ddiweddaraf yn cyrraedd y sgrin yn ei ffurf orffenedig mor ymddangosiadol ddiymdrech. Codi cwr y llen ar holl gymhlethdod y broses hon oedd cymwynas Lisabeth Miles ac Ynwr Williams wrth ein croesawu i Gwmderi ddydd Sadwrn, 3 Hydref 2015. A dyna beth oedd agoriad llygad i'r 34 ohonom (yn aelodau o'r Orsedd a gwesteion) a drodd ein golygon tua Bae Caerdydd ar gyfer chweched cyfarfod cymdeithasol blynyddol yr Orsedd trwy drefniadaeth drylwyr Yr Arwyddfardd, Dyfrig ab Ifor.

Fe'n croesawyd i Ystafell Seligman yng Nghanolfan y Mileniwm gan Yr Archdderwydd Christine a drosglwyddodd yr awenau i un o hoelion wyth y gyfres, sef Lisabeth Miles, sydd wedi chwarae rhan Megan er y cychwyn; o fod ymhlith aelodau ieuengaf y cast ar y cychwyn, y mae hi bellach ymhlith y rhai hynaf yng Nghwmderi. Aeth yn ei blaen i olrhain y prif gerrig milltir yn hanes y gyfres – o'r geiriau cyntaf a lefarwyd gan y diweddar Charles Williams (Harri Parri) yn stiwdios Broadway, 'Bore da, Magi Mathias', yn y bennod gyntaf a ddarlledwyd ar 16 Hydref 1974, hyd heddiw, pan fo'r gyfres yn rhannu holl dechnolegau modern cyfresi teledu fel *Casualty* a *Dr Who* yn stiwdios Porth y Rhath ym Mhorth Teigr, Bae Caerdydd. Rhannodd Lisabeth Miles o'i phrofiad cyfoethog fel actores brofiadol, gan dynnu ar atgofion deugain mlynedd yn y gyfres (a grëwyd gan y diweddar John Hefin a Gwenlyn Parry).

POBOL Y CWM

Persbectif y cynhyrchydd (tan yn gynharach eleni) a gafwyd gan Ynyr Williams, a rannodd gyda ni holl gymhlethdodau rhesymegol rhoi cyfres nosweithiol at ei gilydd, gyda 260 o benodau yn cael eu darlledu dros 52 wythnos. Gyda chynifer

â 28 o sgrïptwyr yn ysgrifennu ar gyfer y gyfres, mae'r broses ysgrifennu – o'r trafodaethau cychwynnol hyd at baratoi fersiynau terfynol y sgrïptiau ar gyfer ffilmio – yn cymryd oddeutu naw mis. Ac yna mae angen amserlennu'r holl waith ffilmio: tua 16-18 golygfa bob dydd, gan gymryd i ystyriaeth pa actorion sydd ar gael, pa stiwdios sy'n rhydd, pa leoliadau allanol sydd eu hangen, a beth yw gofynion gwisgoedd, colur a chelfi. Cur pen go iawn – yn enwedig o ystyried bod oddeutu 80 o bobol yn gweithio ar y gyfres bob dydd, gyda'r ffilmio yn cychwyn am 9.00 y bore ac yn gallu parhau tan 7.00 yr hwyr !

Ar derfyn orig ddadlennol iawn yng nghwmni Lisabeth ac Ynyr - a oedd yn gyfuniad gwerthfawr o safbwyntiau actores a chynhyrchydd – fe gawsom barhau i drafod yn anffurfiol wrth gymdeithasu dros ginio ym Mwyty Ffresh y Ganolfan, cyn ymlwybro ar draws y Bae i ymweld â'r lleoliadau ffilmio yn stiwdios Porth y Rhath. Profiad rhyfedd iawn oedd troedio ystafelloedd 'cyfarwydd' cartrefi cymeriadau megis Mark Jones, Meic Pierce a Garry Monk a loetran yn hamddenol wrth far y Deri, cyn mentro allan i'r awyr agored a chrwydro palmentydd Heol Llanarthur ar y 'lot'. Roedd y cyfan yn ymddangos yn llawer llai nag y mae ar y sgrin ! Cyn ymadael, cawsom ein tywys drwy'r swyddfeydd a'r ystafelloedd coluro a gwisgo – yr adrannau hollbwysig hynny sydd 'tu ôl i'r llenni' ac o olwg y gynulleidfa gartref, ond sydd mor allweddol ar gyfer sicrhau rhediad esmwyth y gyfres.

Wrth adael 'Cwmderi' ar ddiwedd diwrnod hynod addysgiadol, roedd pawb ohonom yn teimlo i ni gael agoriad llygad gwirioneddol i holl beirianwaith rhoi cyfres deledu at ei gilydd mewn modd ymarferol a diddorol. A'r tro nesaf y byddwn yn gwyllo un o benodau **Pobol y Cwm**, rwy'n siwr y byddwn yn llawer mwy gwerthfawrogol o'r cyfan sy'n digwydd yn y dirgel er mwyn gwneud i'r hyn sy'n ymddangos ar ein sgrin fod mor broffesiynol a diymdrech.

Diolch o galon i Lisabeth Miles ac Ynyr Williams am ein tywys drwy 'strydoedd cefn' Cwmderi ac i Dyfrig (a Bethan) am drefnu'r achlysur ar ein cyfer.

Gwyn o Arfon
Hydref 2015

Crynodeb y Swyddog Celtaidd 2015-16

Dyma ddechrau'r adroddiad gyda thri diolch diffuant. Yn gyntaf, diolch i Alwyn a'r tîm yn y 'fffenestri croeso', yn swyddfa'r eisteddfod ac yn y pafiliwn am fod mor barod eu cymwynas tuat ag yr ymwelwyr o'r Gwledydd Celtaidd. Yn ail, diolch hefyd i'r Arwyddfardd am ei drefniadau manwl, ei amynedd a'i hyblygrwydd yn gosod y cyfeillion yn y llefydd priodol yn ystod y seremonïau, a hynny'n aml yn wyneb newidiadau munud olaf o ran enwau a niferoedd y cynrychiolwyr. Yn drydydd, diolch i'r holl orseddogion am eu croeso cynnes tuag atynt, ac yn arbennig i'r cynrychiolwyr o blith aelodau'r bwrdd a aeth i ymweld â'r amrywiol Wyliau. Nid oes gwadu'r ffaith fod sefyllfa'r Gymraeg yn llawer cryfach na'r un arall o'r ieithoedd Celtaidd, ac er bod hyn ar y naill law yn gondemniad o'r sefyllfa'n gyffredinol, ar y llall mae'n braf sylweddoli ein bod ni'n gallu rhoi hwb go iawn i obeithion a gwaith ein brodyr a chwiorydd y tu hwnt i Gymru, sy'n gweithio mor galed i hyrwyddo eu hieithoedd eu hunain.

Roedd hi'n dda clywed geiriau calonogol Llywydd Y Tynwald wrth iddi annerch y pafliwn brynhawn Llundain ym Meifod a rhoi darlun o dwf y Fanaweg i ni. Ond yn ystod y flwyddyn gwelwysom hefyd ddeiseb gan y cyfeillion o Gernyw yn galw ar i'r llywodraeth yn San Steffan sicrhau cymorth i'r Gernyweg. Mae'r sefyllfa yno'n parhau'n fregus.

Rydym yn adeiladu ar amserlen y Celtiaid ar ei newydd wedd ac eleni cynhelir sesiwn 'Dysgu Cymraeg' ym mhabel Y Drindod Dewi Sant fore Mawrth ar eu cyfer. Mae modd cryfhau eto'r ymweliadau a byddaf yn cywain syniadau'r cynrychiolwyr ar ffurf holiadur syml yn ystod Eisteddfod Y Fenni er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau yn rhai mor fuddiol â phosib.

Penderfynodd y bwrdd ym mis Hydref gymeradwyo'r syniad o anfon enillydd yr Unawd Alaw Werin i'r Chruinnaght ar ein rhan, gan fod galw ar i'r cynrychioliydd yno ganu neu ddawnsio. Gwahoddwyd Steffan Rhys Hughes ond yn anffodus, oherwydd galwadau gwaith, ni fu'n bosib trefnu hyn y tro yma. Â'r egwyddor bellach yn ei lle, gobeithio, gyda mwy o rybudd, bydd modd gwireddu hyn yn 2017.

Yn 2015 fe'n cynrychiolwyd fel a ganlyn:

CERNYW:	Gwenda Penbont
IWERDDON:	Ela Cerrigellgwm
LLYDAW:	Telennaour a Sklerijenn
YNYS MANAW:	Mererid
YR ALBAN:	Annes Glyn
PATAGONIA:	Christine

Y cynrychiolwyr o'r Gwledydd Celtaidd yn 2015 oedd fel a ganlyn:

IWERDDON:	Pádraig Ó Héalaí (Llywydd yr Oireachtas) a Máire Ní Fhlatartaigh
MANAW:	Clare Kilgallon
YR ALBAN:	Seumas Greumach ac Iain Moireasdan
LLYDAW:	Bernez ar Brogar a Mignoniz an Avel
PATAGONIA:	Ivonne Maes Llaned
CERNYW:	Steren Môr a Thelynor An Weryn

Y Celtiaid a fydd yn dod yn 2016

CERNYW:	Telynor An Weryn, Bardd Mawr Cernyw a Corolyores
IWERDDON:	Máirín de Brún a Gearóid Ó Mordha
LLYDAW:	Kurunbarzh, Derwydd, Emilie, Fardd Ofydd
YNYS MANAW:	?
YR ALBAN:	Alasdair a Katrian MacCuish
PATAGONIA:	Judith Alaw Camwy

Ein cynrychiolwyr ni yng ngwyliau'r Celtiaid yn 2016:

CERNYW:	Jim Parc Nest a Manon
IWERDDON:	Geraint Llifon
LLYDAW:	Penri Tanad
YNYS MANAW:	Ifor ap Glyn
YR ALBAN:	Mererid
PATAGONIA:	?

Tro'r Albanwyr fydd hi i roi'r anerchiad ar ran y brodyr a'r chwiorydd Celtaidd.

Mererid

Adroddiad Blynyddol yr Arwyddfardd - 2016

Roedd cyfanswm archebion y llynedd yn agos i'r cyfartaledd blynyddol, a hynny'n creu cyfanswm ariannol o £9,383. Parhawyd â'r cynnig i'r aelodau archebu tocynnau Gorsedd ar lein, a bu cynnydd o 30% i 56% yn y dull yma o weithredu. Teg nodi fod ambell un wedi cael trafferth cysylltu ar lein, ond unwaith eto fe gyflwynwyd arweiniad i bawb a ffoniodd i nodi eu trafferthion. Yn dilyn y trafferthion yma fe ailwampwyd y ffurflen eleni, a bu gostyngiad sylweddol ymhlith y rhai a gafodd drafferth. Yn wir ymddengys i'r trafferth ymwneud yn bennaf â gwybodaeth bersonol ynglŷn â thalu ar lein.

Gwireddwyd y polisi unwaith eto o wrthod archebion wedi cyrraedd yr uchafswm seddi - yn wyneb y ffaith fod y llwyfan yn llai - ac fe dderbyniwyd hynny yn foneddigaidd. Yn anffodus, unwaith eto ni lwyddodd canran o'n haelodau i bresenoli eu hunain yn y seremonïau er iddynt archebu tocynnau. Fe gysylltodd sawl un i ymddiheuro am absenoldeb anorfod, ond er gwaethaf hynny, roedd yr absenoldeb yn parhau yn uchel - 22%.

Bu inni gael newid yn nhrefn yr ystafelloedd newid y llynedd gydag ardaloedd ar wahân i'r gwŷr a'r gwragedd - trefniant effeithiol a wireddwyd yn ddidrafferth. Unwaith eto roedd canmoliaeth i ymdrechion Arolygydd y Gwisgoedd i gael gwisg unigryw i bob aelod, a derbyniwyd sawl sylw o ganmoliaeth. Bu canmol hefyd i'r ymdrech wnaed i leoli'r Babell Lên wrth Gylch yr Orsedd, a bwriedir cadw at y patrwm yma pan fydd hynny'n ymarferol.

Cafwyd diwrnod llwyddianus yng Nghwm Deri ar ymweliad Cylch Cymdeithasol yr Orsedd yno, diolch i un o'n aelodau - Lisabeth o'r Weun, ac i gyn gyfarwyddwr y gyfres, Ynyr Williams. Edrychwch ar wefan Yr Orsedd am yr hanes ac i weld y lluniau. Bydd ymweliad eleni yn galw heibio i Wrecsam am sgwrs hanesyddol am Blasty Erddig cyn ymweld â'r tŷ. Mae lle ar y daith, felly cysylltwch os am ymuno ar y funud olaf.

Mae'r gwaith paratoadol ynglŷn ag Eisteddfod 2017 wedi hen ddechrau, a phopeth yn symud ymlaen yn hwylus gyda chymorth staff y Swyddfa Ganolog

Fel arfer mae niolch yn fawr i sawl un am gymorth a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn - does dim gobaith i mi enwi pawb, felly dyma ddatganiad cyffredinol o werthfawrogiad diffuant i bawb.

Dyfrig ab Ifor